

HTT-2-1281

**GORCHYMYN CYDGYFNERTHU SIR GAERFYRDDIN (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)**

**(AMRYWIAD RHIF 1) 2015**

-----

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, gan ymarfer ei bwerau o dan Adrannau 35(1) a (3) o Ran IV o Atodlen 9 i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn allan yma fel "Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Parcio 1989 a chan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogol eraill, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i Ddeddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Caiff Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) 2014 ("Y Gorchymyn Cydgyfnerthu") drwy hyn ei amrywio a chaiff yr effaith ganlynol:

- 1.1 Cafodd yr Erthygl ganlynol ei chyfnewid am Erthygl 16:

Yn amodol ar ddarpariaethau Erthygl 16A, bydd tocyn parcio a ddefnyddir mewn Man Parcio a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ond yn docyn parcio dilys:

- (i) os yw wedi cael ei brynu o beiriant tocynnau yn y man parcio lle gadewir y cerbyd
- (ii) os yw wedi'i arddangos ar y cerbyd mewn Safle Priodol: AC
- (iii) os yw wedi cael ei brynu'n unol â'r darpariaethau bod, yn y Mannau Parcio a nodir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn, un tocyn y cerbyd yn ddilys naill ai:
  - (a) am nifer yr oriau neu'r cyfnod a ddangosir ar y tocyn gan ddechrau, os prynwyd y Tocyn yn ystod yr Oriau Codi Tâl, adeg prynu'r tocyn neu, os prynwyd y tocyn y tu hwnt i'r Oriau Codi Tâl, ar ddechrau'r cyfnod Oriau Codi Tâl canlynol nesaf; NEU
  - (b) o'r adeg y'i prynwyd neu, os prynwyd y tocyn y tu hwnt i'r Oriau Codi Tâl, o ddechrau'r cyfnod Oriau Codi Tâl canlynol nesaf tan yr amser darfod a ddangosir ar y Tocyn gan olygu fodd bynnag na fydd tocyn o'r fath yn ddilys ar ôl i'r cerbyd aros mewn unrhyw un cyfnod o Oriau Codi Tâl am fwy na'r mwyafswm amser aros (os oes un) a ddangosir yn Erthygl 9 o'r Gorchymyn hwn, a

- 1.2 Caiff Erthygl 16A ychwanegol ei chynnwys:

Bydd yr eithriadau canlynol yn berthnasol i ddarpariaethau Erthygl 16(i):

- (i) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad byr yn nhrefi Rhydaman, Llandeilo, Llanymddyfri a Chastellnewydd Emlyn, yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir

yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio a leolir yn y trefi dywededig

- (ii) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad byr yn nhref Caerfyrddin, yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio arhosiad byr a leolir yn y dref ddywededig
- (ii) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad byr yn nhref Llanelli, yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio arhosiad byr yn y dref ddywededig
- (iv) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad hir yn nhrefi Rhydaman, Llandeilo, Llanyddyfri a Chastellnewydd Emlyn (ac eithrio Stryd y Neuadd, Rhydaman), yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio a leolir yn y trefi dywededig
- (v) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad hir yn nhref Caerfyrddin (ac eithrio maes parcio Heol y Prior), yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio arhosiad hir yn y trefi dywededig
- (vi) bydd modd trosglwyddo tocyn a brynir o Beiriant Tocynnau yn unrhyw un o'r meysydd parcio arhosiad hir yn nhref Llanelli (ac eithrio maes parcio Stryd Edgar), yn ystod yr oriau neu'r cyfnod a ganiateid a ddisgrifir yn Erthygl 16(iii), a hynny rhwng pob maes parcio arhosiad hir a leolir yn y dref ddywededig

2. Bydd y Gorchymyn yn dod i rym ar y 1af o Ebrill, Dwy Fil a Phymtheg, a gellid cyfeirio ato fel Gorchymyn Cydgyfnerthu Sir Gaerfyrddin (Mannau Parcio oddi ar y Stryd) (Amrywiad Rhif 1) 2015.

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN**  
**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** yma  
Yr 20<sup>fed</sup> o Fawrth, 2015  
Ger fy mron i,

*Linda Rees-Jones*

**Linda Rees-Jones**  
**Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith**

